Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Medr/2026/36: Atodiad B

# Canllawiau Cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol Addysg Bellach

Fersiwn 1

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2026

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

**www.medr.cymru**

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cynnwys


Diben y cyllid ........ 3

Cymhwysedd dysgwyr ........ 3

Dysgwyr ar raglenni ar wahân ........ 4

Gweithgarwch cymwys ........ 5

Cymorth dynol ........ 6

Prynu offer/meddalwedd arbenigol ........ 8

Gweithgarwch anghymwys ........ 9

Gofynion tystiolaeth ........ 9

Gofynion monitro ........ 10

Manylion cyswllt ........ 11

Atodiadau ........ 12

A. Rhestr Termau ........ 12

B. Rhaglenni ar wahân sydd o fewn cwmpas Maes Pwnc Sector 14 ........ 14

C. Cofnodi Cymorth Dysgu Ychwanegol ar Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LP76). 15

D. Enghreifftiau o Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) a Chymorth Galluogi ... 16

## Diben y cyllid

1. Daw'r canllawiau hyn i rym o'r dyddiad cyhoeddi ymlaen a byddant yn disodli'r holl ganllawiau blaenorol mewn perthynas â chyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol (CDY) Addysg Bellach. Dim ond er mwyn cefnogi dysgwyr ag anghenion cymorth ychwanegol dynodedig sy'n creu rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael mynediad at eu rhaglen ddysgu, cymryd rhan ynddi neu ei chwblhau'n llwyddiannus y caniateir defnyddio cyllid CDY. At ddibenion y canllawiau hyn, cyfeirir at ddysgwyr sy'n gymwys i gael cyllid CDY fel dysgwyr ag Anghenion Cymorth Ychwanegol (ACY). Mae hyn yn cynnwys dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) fel y'u diffinnir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021, yn ogystal â dysgwyr y mae angen iddynt gael Cymorth Galluogi (CG) er mwyn goresgyn rhwystrau dynodedig sy'n eu hatal rhag cael mynediad at eu rhaglen ddysgu, cymryd rhan ynddi neu ei chwblhau'n llwyddiannus.

2. Mae cyllid CDY hefyd yn helpu sefydliadau addysg bellach i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â gwneud addasiadau rhesymol fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010).

3. Gall Medr ddiwygio'r trefniadau a nodir yn y canllawiau hyn, eu diddymu neu ychwanegu atynt unrhyw bryd.

4. Bwriedir i gyllid CDY ychwanegu at y cyllid a ddyrennir drwy'r Dyraniad Cyllid Prif Ffrwd Ôl-16 ac nid yw'n disodli prif ffynhonnell gyllid sefydliad, ac ni ddylid penderfynu ar statws derbyn dysgwr yn seiliedig ar hyn chwaith.

5. Dylai sefydliadau ddefnyddio cyllid CDY er mwyn ymateb i anghenion dysgwyr unigol. Wrth iddynt wneud hynny, gofynna Medr iddynt wneud arbedion rhesymol, megis rhannu cymorth a chyd-drafod cyfraddau cystadleuol am offer a gwasanaethau er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau Medr a sicrhau y caiff y cyllid sydd ar gael ei ddosbarthu'n deg.

## Cymhwysedd dysgwyr

6. Dim ond er mwyn cefnogi dysgwyr ag anghenion cymorth ychwanegol dynodedig sy'n creu rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael mynediad at eu rhaglen ddysgu, cymryd rhan ynddi neu ei chwblhau'n llwyddiannus y caniateir defnyddio cyllid CDY. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr ag anableddau a/neu anawsterau dysgu fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) fel y'u diffinnir gan God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (y Cod). At ddibenion y canllawiau hyn, cyfeirir at ddysgwyr sy'n gymwys i gael cyllid CDY fel dysgwyr ag Anghenion Cymorth Ychwanegol (ACY).

7. Mae'r dysgwyr sy'n gymwys i gael cyllid CDY yn cynnwys dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni astudio drwy drefniadau trydydd parti.

8. **Nid** yw cymhwysedd i gael cyllid CDY yn ymestyn i ddysgwyr addysg uwch am fod cyllid ar wahân ar gael ar gyfer dysgwyr addysg uwch drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru.

9. **Nid** yw cymhwysedd i gael cyllid CDY yn ymestyn i brentisiaethau am fod cyllid ar wahân ar gael ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni prentisiaeth. Gweler Cyllid ar gyfer prentisiaethau am rhagor o wybodaeth.

10. Gellir defnyddio cyllid CDY ar gyfer unrhyw ddysgwyr sydd ag ACY, p'un a ydynt ar raglenni dysgu prif ffrwd neu raglenni dysgu ar wahân, neu'n astudio amser llawn neu'n rhan-amser. Mae rhagor o wybodaeth am gefnogi dysgwyr ar raglenni ar wahân i'w gweld ym mharagraffau 11 i 17 isod.

## Dysgwyr ar raglenni ar wahân

11. Mae'r fethodoleg gyllido ar gyfer addysg Ôl-16 yn cydnabod y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â sicrhau darpariaeth sydd wedi'i dylunio'n arbennig ar gyfer dysgwyr ag anghenion a/neu anableddau dysgu; a darpariaeth ar gyfer dysgwyr sy'n cael darpariaeth Sgiliau Byw'n Annibynnol sy'n denu'r gwerth cyllido uchaf. Felly, ni ragwelir y bydd llawer o ddysgwyr ar raglenni ar wahân y bydd eu hanghenion yn golygu bod angen cyllid CDY.

12. Dull dyrannu a ddefnyddir gan Medr i ddosbarthu ei gymorth grant i wahanol rannau o'r sector addysg bellach yw'r fethodoleg gyllido ar gyfer addysg Ôl-16, ac nid dull i sefydliadau ddyrannu cyllid yn fewnol. Mater i bob coleg unigol yw penderfynu sut y bydd yn dosbarthu ei gyllid yn fewnol, yn amodol ar y telerau ac amodau ar gyfer defnyddio cyllid a nodir yn y Cytundeb Cyllido.

13. Dylai anghenion y rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n cael darpariaeth Sgiliau Byw'n Annibynnol gael eu diwallu drwy ddefnyddio'r cyllid a ddarperir drwy'r Dyraniad Cyllid Prif Ffrwd Ôl-16. Dylai hyn alluogi sefydliadau addysg bellach i ddarparu staff cymorth ym mhob grŵp ar wahân er mwyn sicrhau y caiff anghenion dysgu ychwanegol myfyrwyr eu diwallu.

14. Dim ond yn yr achosion prin hynny lle y bydd dysgwr yn annhebygol o allu ymdopi o fewn ei raglen ar wahân heb lefel uchel o gymorth agos y dylai sefydliadau addysg bellach ddefnyddio cyllid CDY.

15. Lle y caiff cyllid CDY ei ddefnyddio, rhaid bod tystiolaeth ategol glir (e.e. Cynllun Datblygu Unigol) sy'n dangos bod gan ddysgwyr anghenion cymorth sylweddol, ac y byddai'r sefydliad yn mynd i gostau ychwanegol ar eu cyfer a fyddai'n sylweddol uwch na'r hyn y byddai'n rhesymol disgwyl ei sicrhau drwy'r Dyraniad Cyllid Prif Ffrwd Ôl-16.

16. Fel arfer, byddai tystiolaeth ategol yn cynnwys CDU neu asesiad diagnostig proffesiynol arall sy'n cadarnhau math a graddau anhawster a/neu anabledd dysgu'r dysgwr ac sy'n nodi ei anghenion cymorth yn glir. Ni fydd angen cyflwyno'r dystiolaeth hon i Medr. Fodd bynnag, fel un o'r amodau cyllido, rhaid cadw'r holl dystiolaeth sy'n dangos bod y maen prawf ym mharagraff 15 uchod wedi cael ei fodloni ac sy'n cadarnhau'r gofynion cymorth unigol. Mae'n bosibl y caiff y dystiolaeth hon ei harchwilio a cheidw Medr yr hawl i ofyn am y dystiolaeth hon unrhyw bryd.

17. Nodir rhestr o'r rhaglenni ar wahân hynny sydd o fewn cwmpas meysydd pwnc 14 yn **Atodiad B**.

## Gweithgarwch cymwys

18. Gellir defnyddio'r cyllid ar gyfer Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY). Diffinnir hyn fel darpariaeth addysg neu hyfforddiant sy'n ychwanegol at y ddarpariaeth sydd ar gael fel arfer i ddysgwyr eraill yn y sefydliad, neu sy'n wahanol i'r ddarpariaeth honno (fel y diffinnir ym Mhennod 2 y Cod). Rhaid i ddysgwyr y mae angen DDdY arnynt gael Cynllun Datblygu Unigol (CDU) oni bai bod y dysgwr wedi gwrthod CDU a gynigiwyd iddo. Rhaid i'r penderfyniad hwn gael ei ddogfennu, a rhaid iddo ganolbwyntio ar y dysgwr.

19. Gellir hefyd ddefnyddio'r cyllid i roi Cymorth Galluogi (CG) i ddysgwyr ag anghenion cymorth ychwanegol dynodedig nad oes angen iddynt gael Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY). Mae'n bosibl na fydd dysgwyr sy'n gymwys i gael y math hwn o gymorth wedi cael diagnosis ac mae'n bosibl na fydd ganddynt CDU. Rhaid bod tystiolaeth ar gael i ddangos y byddai'r dysgwyr hyn yn annhebygol o allu cael mynediad at eu rhaglen addysg neu hyfforddiant, cymryd rhan ynddi neu ei chwblhau'n llwyddiannus heb y cymorth hwn. Fel yr amlinellir isod, nid yw hyn yn cynnwys Cymorth Sgiliau Sylfaenol, a ddylai fod ar gael i bob dysgwr. Dylai CG fod ar gael pan fydd angen a gellir ei rannu ag eraill sydd ag anghenion cymorth ychwanegol dynodedig tebyg.

20. At ddibenion y canllawiau hyn, cyfeirir at y ddau fath o gymorth a ddisgrifir uchod fel Cymorth Dysgu Ychwanegol (CDY).

21. Gellir defnyddio cyllid CDY i roi cymorth yn y categorïau eang a amlinellir yn y tabl ym mharagraff 26 a pharagraffau 27 i 32 isod. Gall y cymorth hwn gael ei roi y tu mewn neu'r tu allan i'r ystafell ddosbarth neu'r gweithdy.

22. Dylai sefydliadau nodi nad yw'r categorïau hyn yn hollgynhwysfawr ond y bwriedir iddynt ddangos yr ystod eang o gymorth sydd o fewn cwmpas cyllid CDY. Os nad yw math neu gategori penodol o gymorth wedi'i gynnwys yn y tabl ym mharagraff 26 a pharagraffau 27 i 32 isod, cysylltwch â Medr i ofyn am eglurhad.

23. Bwriedir i gyllid CDY gyfrannu at dalu costau staff a gyflogir i ddiwallu anghenion cymorth dysgwyr cymwys.

24. Gall sefydliadau ddefnyddio hyd at 10% o'u dyraniad blynyddol i gyfrannu at dalu costau staff i gydlynu a rheoli'r cymorth i ddysgwyr. Rhaid i staff gael eu cyflogi'n benodol neu i raddau helaeth er mwyn diwallu anghenion cymorth ychwanegol dysgwyr cymwys neu gydlynu a rheoli'r gwaith o roi'r cymorth hwnnw.

25. Dylai'r holl gymorth a roddir gan ddefnyddio cyllid CDY alluogi dysgwr ymhellach i fod mor hunaneffeithiol â phosibl a hunaneirioli cymaint â phosibl.

## Cymorth dynol

26.

| Math o ddarpariaeth | Disgrifiad |
|---|---|
| **Tiwtor/cynghorydd arbenigol** | Er enghraifft tiwtor Anawsterau Dysgu Penodol (ADP), arbenigwr cymorth ymddygiad neu ymarferydd arbenigol arall. Byddai unigolion sy'n cyflawni'r rôl hon fel arfer yn meddu ar gymwysterau Lefel 7 a/neu wybodaeth a phrofiad arbenigol cyfatebol sy'n berthnasol i anghenion cymorth dynodedig y dysgwr. |
| **Hyfforddiant Technoleg Gynorthwyol Arbenigol** gan diwtor neu gynghorydd TG (gan gynnwys technegydd) | Dylai hyn fod yn ychwanegol at y cymorth gan diwtor a roddir drwy elfen graidd rhaglen amser llawn. Atgoffir sefydliadau y dylai cyllid CDY hefyd gael ei ddefnyddio i brynu adnoddau ychwanegol ac nid i ad-dalu costau staff addysgu amser llawn craidd. |
| **Gweithiwr cymorth cyfathrebu** | Gall hyn gynnwys arwyddwyr a dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL) neu weithwyr cymorth cyfathrebu ar gyfer dysgwyr ag anawsterau eraill sy'n gysylltiedig â chyfathrebu. Er bod BSL Lefel 3 wedi'i nodi fel meincnod sylfaenol, dylai sefydliadau sicrhau bod lefel y cymorth cyfathrebu a roddir yn briodol i anghenion y dysgwr unigol, a all olygu bod angen cymwysterau ar lefel uwch (e.e. Lefel 6 neu ddehonglwyr cofrestredig). |
| **Cynorthwyydd Cymorth** | Er enghraifft cymorth a rennir neu gymorth i unigolion gan gynorthwyydd cymorth dysgu, cymorth gofal personol, cymorth yn ôl ac ymlaen o gludiant, cymorth gan ysgrifennydd nodiadau, cofnodwr neu gynorthwyydd cymorth sydd wedi cael hyfforddiant ar anhwylderau sbectrwm awtistiaeth, neu dywysydd sy'n gallu gweld.<br>Lle y defnyddir cynorthwywyr cymorth, rhaid i sefydliadau sicrhau ei bod yn amlwg y bydd cymorth a ariennir drwy CDY yn targedu dysgwyr unigol neu grwpiau diffiniedig sydd ag anghenion cymorth ychwanegol dynodedig. Dylai cymorth sydd ar gael fel mater o drefn i bob dysgwr o fewn dosbarth neu raglen gael ei ystyried yn rhan o Ddarpariaeth Ddysgu Gyffredinol (DDdG) ac nid yw'n gymwys i gael cyllid CDY. |
| **Asesiadau Cymorth Unigol** | Gan gynnwys asesiadau allanol untro, e.e. gan seicolegydd addysg, RNIB Cymru, Cyngor Cymru i'r Deillion, Action on Hearing Loss Cymru neu Gyngor Cymru i Bobl Fyddar ac asesiadau a gynhelir gan staff ADP priodol y coleg. Noder ei bod yn rhaid i'r asesiad fod yn ychwanegol at y |

| Math o ddarpariaeth | Disgrifiad |
|---|---|
| | weithdrefn asesu a chofrestru safonol a ariennir drwy'r Dyraniad Cyllid Prif Ffrwd Ôl-16.<br><br>Mae costau mewnol, lle y caiff asesiadau eu cynnal gan staff y sefydliad addysg bellach, ar gyfer trefniadau mynediad i arholiadau yn gymwys o dan y canllawiau hyn. Fodd bynnag, nid yw unrhyw gostau allanol yn gymwys. |
| **Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol (Trefniadau Mynediad i Arholiadau)** | Rhaid i gymorth a ariennir drwy CDY ar gyfer trefniadau mynediad i arholiadau fod yn seiliedig ar angen dysgu, anhawster dysgu neu anabledd ychwanegol dynodedig a chael ei ategu gan asesiad a/neu dystiolaeth briodol. Rhaid i addasiadau adlewyrchu ffordd arferol y dysgwr o weithio a bod yn ofynnol er mwyn sicrhau mynediad teg at asesiad. Dylai sefydliadau roi trefniadau ar waith yn unol â gofynion cyfredol y Cyd-Gyngor Cymwysterau (JCQ).<br><br>Gellir defnyddio cyllid CDY lle y bydd trefniadau mynediad yn arwain at gostau cymorth ychwanegol y tu hwnt i ddarpariaeth safonol ar gyfer arholiadau. Ni chaniateir ei ddefnyddio ar gyfer gwaith gweinyddu arholiadau cyffredinol, goruchwylio arferol, na threfniadau a fydd ar gael fel arfer i bob dysgwr drwy ddarpariaeth graidd neu gyllid gan gorff dyfarnu.<br><br>I gael rhagor o wybodaeth, gweler canllawiau JCQ ar drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol. |
| **Hyfforddiant/Cymorth Teithio** | Lle y bydd hyn yn cynnwys rhoi hyfforddiant/cymorth wedi'i deilwra sy'n ychwanegol at hyfforddiant/cymorth a roddir fel rhan o brif raglen astudio'r dysgwr. |
| **Trefniadau pontio estynedig/wedi'u teilwra** | Rhaid iddi fod yn amlwg bod gweithgarwch pontio estynedig a ariennir drwy CDY y tu hwnt i brosesau recriwtio, derbyn neu bontio safonol. Rhaid i sefydliadau allu dangos tystiolaeth bod gweithgarwch o'r fath yn ofynnol oherwydd anghenion cymorth ychwanegol y dysgwr yn benodol, ac na fyddai'n cael ei gynnal ar gyfer yr holl ddysgwyr fel arfer. |
| **Llesiant neu Gwnsela** | Rhaid i gymorth llesiant neu gwnsela a ariennir drwy CDY fod yn uniongyrchol gysylltiedig ag angen dysgu ychwanegol neu angen cymorth ychwanegol dynodedig dysgwyr, a rhaid dangos effaith glir ar ei allu i gymryd rhan neu lwyddo mewn gweithgareddau dysgu. Nid yw cymorth |

| Math o ddarpariaeth | Disgrifiad |
|---|---|
| | llesiant neu fugeiliol cyffredinol sydd ar gael i bob dysgwr yn gymwys i gael cyllid CDY. |
| **Cymorth i annog dysgwyr ag ACY i ymwneud â darpariaeth ar-lein neu ddulliau dysgu cyfunol** | Dim ond pan fydd yn gyfystyr ag ymyriad ychwanegol dan gyfarwyddyd sy'n ofynnol oherwydd anghenion cymorth ychwanegol dynodedig dysgwr y bydd cymorth ar gyfer dysgu ar-lein neu gyfunol yn gymwys. Dylai darpariaeth ddigidol safonol, gan gynnwys cymorth cyffredinol a roddir i'r holl ddysgwyr, gael ei hystyried yn rhan o ddarpariaeth graidd ac nid yw'n gymwys i gael cyllid CDY. |

## Prynu offer/meddalwedd arbenigol

27. Gellir defnyddio cyllid CDY i brynu meddalwedd neu offer arbenigol, ond ni ddylid ystyried mai'r cyllid hwn yw'r brif ffynhonnell gyllid i brynu offer ar gyfer dysgwyr ag ACY. Gall yr offer hyn gynnwys:
    - offer arbenigol ar gyfer amhariadau ar y golwg;
    - troshaenau;
    - meddalwedd testun-i-lais/llais-i-destun;
    - addasiadau TG;
    - meddalwedd arbenigol a thrwyddedau cysylltiedig;
    - caledwedd TG arbenigol;
    - offer clyw arbenigol.

28. Ni ellir defnyddio'r cyllid ar gyfer uwchraddiadau meddalwedd cyffredinol nac i brynu meddalwedd sydd ar gael ar bob gliniadur, llechen a chyfrifiadur yn y sefydliad addysg bellach. Hefyd, ni ellir ei ddefnyddio i brynu meddalwedd ar gyfer cwrs penodol y byddai angen i'r holl ddysgwyr ar y cwrs ei chael p'un a oes ganddynt ACY ai peidio. Dim ond i brynu meddalwedd ac offer arbenigol y nodwyd bod eu hangen ar ddysgwr unigol y dylid defnyddio cyllid CDY.

29. Gall sefydliadau ddefnyddio cyllid CDY i lesio offer arbenigol os mai am gyfnod byr y bydd eu hangen.

30. Os caiff eitem o offer ei phrynu gan ddefnyddio cyllid CDY yn unig, caiff yr eitem ei hystyried yn adnodd cenedlaethol pan fydd y dysgwr y cafodd ei phrynu ar ei gyfer wedi gadael y sefydliad. Dan yr amgylchiadau hyn, gellir trosglwyddo'r eitem i sefydliad arall er mwyn i ddysgwr arall ei defnyddio.

31. Argymhellir y dylai'r sefydliad gynnwys unrhyw eitemau o offer a brynwyd gan ddefnyddio cyllid CDY yn eu hyswiriant.

32. Pan na fydd offer a brynwyd gan ddefnyddio cyllid CDY yn cael eu defnyddio mwyach, gall y sefydliad waredu'r offer yn unol â'i weithdrefnau arferol ar gyfer gwaredu offer nas defnyddir mwyach ar yr amod y caiff trywydd archwilio clir ei gadw. Dylai unrhyw enillion yn sgil gwerthu'r eitemau hyn gael eu defnyddio i brynu

offer cymwys newydd yn unol ag amodau'r canllawiau hyn. Rhaid i sefydliadau gynnwys yr enillion hyn yn eu cysoniad diwedd blwyddyn.

### Gweithgarwch anghymwys

33. Ni ellir defnyddio cyllid CDY i dalu am Gymorth Sgiliau Sylfaenol.

34. Ni ellir defnyddio cyllid CDY i dalu am ddysgu galw heibio na chymorth y tu allan i'r dosbarth sydd ar gael i'r holl ddysgwyr p'un a oes ganddynt ACY ai peidio.

35. Ni ellir defnyddio cyllid CDY i ad-dalu cyflogau staff addysgu craidd nac aelodau allweddol eraill o staff (megis technegwyr neu hyfforddwyr/arddangoswyr) sy'n cyfrannu at gynnal rhaglenni. Ni ddylai gael ei ddefnyddio i ad-dalu costau cyflogau uwch-reolwyr a rheolwyr canol a all fod â rhywfaint o gyfrifoldeb am ACY fel rhan o rôl ehangach chwaith.

36. Ni ellir defnyddio cyllid CDY i roi cymorth ariannol i ddysgwyr na chymorth iddynt brynu offer ar gyfer cwrs penodol. Os bydd angen i ddysgwr gael y math hwn o gymorth, dylid ystyried y Gronfa Ariannol wrth Gefn.

37. Rhoddir cyllid CDY yn ychwanegol at y cyllid a roddir ar gyfer cynnal rhaglenni amser llawn a rhan-amser er mwyn cyfrannu at y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chefnogi dysgwyr ag ACY. Ni ellir ei ddefnyddio i gynnal elfen dysgu cymunedol â ffocws ar ddiwydiant o raglen. Ni ddylai gael ei ddefnyddio i ariannu'r cymorth gan diwtor na'r cymorth sgiliau sylfaenol/hanfodol sy'n rhan graidd o raglen amser llawn chwaith.

### Gofynion tystiolaeth

38. Ar gyfer pob dysgwr sy'n cael cyllid CDY, dylai'r sefydliad gytuno ar y cymorth gyda'r dysgwr a chofnodi'r deilliant yn ei Gynllun Dysgu Unigol (CDU), gan gadw tystiolaeth o'r asesiad o anghenion, a all fod yn electronig neu ar bapur. Dylai'r sefydliad roi cymorth i ddiwallu'r anghenion a nodwyd ar gyfer y dysgwr a bwrw golwg dros gynnydd a'r anghenion sy'n parhau fel y bo'n briodol.

39. Ar gyfer dysgwyr sy'n cael Cymorth Galluogi ac nad oes ganddynt CDU, rhaid i sefydliadau gadw tystiolaeth o'r angen cymorth ychwanegol dynodedig, y sail resymegol dros y cymorth a roddir, a chofnod sy'n dangos sut mae'r cymorth yn cyfrannu at fynediad, cyfranogiad neu gyflawniad y dysgwr. Gall y dystiolaeth hon fod yn electronig neu ar bapur a rhaid iddi fod ar gael i'w harchwilio os bydd Medr yn gofyn amdani.

40. Lle y bo'n briodol, dylai CDU dysgwyr sy'n cael cyllid CDY gynnwys tystiolaeth o asesiad diagnostig cofnodedig[1], a nodi anghenion cymorth unigol a'r rhaglen ddysgu.

[1] Nid asesiad diagnostig meddygol yw hwn, ond un a gaiff ei ddefnyddio gan y sefydliad addysg bellach i benderfynu ar anghenion dysgwyr a'r DDdY briodol.

41. Lle y bo'n briodol, dylai'r dysgwyr a/neu eiriolwr y dysgwr gadarnhau bod asesiad diagnostig wedi cael ei gynnal a chytuno â'r ddarpariaeth a awgrymir. Dylai'r nodweddion hyn gael eu cofnodi yn CDU pob dysgwr.

42. Lle y bydd Medr yn cyfrannu at gostau cymorth penodol, boed yn ddynol neu'n dechnegol, neu at greu amgylchedd dysgu priodol, bydd hyn yn gysylltiedig â dysgwyr unigol a dylid ei gofnodi ar y CDU. Caiff yr agweddau hyn ar y CDU eu harchwilio'n ddetholus.

43. Rhaid i unrhyw ddysgwyr sydd â hawl statudol i gael CDU y mae angen DDdY arnynt gael CDU oni bai bod y dysgwr wedi gwrthod un a gynigiwyd iddo. Rhaid i'r penderfyniad hwn gael ei ddogfennu, a rhaid iddo ganolbwyntio ar y dysgwr.

44. Rhaid i ddysgwyr ar raglenni ar wahân sy'n cael cyllid CDY gael CDU neu ddogfen statudol arall sy'n cadarnhau math a graddau anhawster a/neu anabledd dysgu'r dysgwr ac sy'n nodi ei anghenion cymorth yn glir.

45. Ni fydd angen cyflwyno'r dystiolaeth hon i Medr. Fodd bynnag, fel un o'r amodau cyllido, rhaid cadw'r holl dystiolaeth sy'n cadarnhau'r gofynion cymorth unigol. Mae'n bosibl y caiff y dystiolaeth hon ei harchwilio a cheidw Medr yr hawl i ofyn am y dystiolaeth hon unrhyw bryd.

46. Mae Arolygiaeth Ei Fawrhydi Estyn eisoes yn ystyried trefniadau ar gyfer cymorth dysgu ychwanegol fel rhan o'i hymweliadau rheolaidd. Caiff unrhyw broblemau sylweddol sy'n ymwneud â rhoi cymorth dysgu ychwanegol eu cofnodi mewn adroddiadau a chynlluniau gweithredu ar ôl arolygiadau a gaiff eu monitro gan Medr.

## Gofynion monitro

47. Dylai sefydliadau gadw tystiolaeth glir sy'n dangos y canlynol:

- yr angen cymorth dynodedig;
- pam mae'r cymorth yn ychwanegol at ddarpariaeth graidd;
- sut mae'r cymorth yn cyfrannu at wella mynediad, cyfranogiad neu ddeilliannau dysgwr.

48. Rhaid i sefydliadau sicrhau eu bod yn cofnodi'r holl ddysgwyr a gefnogir gan ddefnyddio cyllid CDY ar Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Ar ddiwedd y flwyddyn, caiff data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru eu cysoni â gwybodaeth o adroddiadau diwedd blwyddyn sefydliadau. Ni fyddai Medr yn disgwyl gweld unrhyw wahaniaethau mawr o ran nifer y dysgwyr a gefnogir a gofynnir i sefydliadau dalu sylw arbennig i ansawdd eu data yn LP76. Mae rhagor o wybodaeth am gofnodi dysgwyr yn LP76 i'w gweld yn **Atodiad C**.

49. Bydd Medr yn monitro data ar gymorth dysgu yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru er mwyn sicrhau bod y lefelau'n aros yn gyson. Caiff canllawiau ategol ar gofnodi'n gywir drwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru eu cyhoeddi drwy'r Cylchlythyr Buddsoddiad a Monitro.

50. Rhaid i sefydliadau sy'n cael cyllid CDY gyflwyno adroddiad diwedd blwyddyn erbyn y dydd Gwener olaf ym mis Tachwedd ar ôl diwedd y flwyddyn academaidd. Bydd Medr yn rhannu templedi adroddiad i'w cwblhau cyn y dyddiad cau.

51. O 2026/27 ymlaen, bydd cyllid CDY yn un o bum ffrwd gyllido sy'n rhan o ‘Gronfa Cymorth a Llesiant’ Medr. Bydd y Gronfa Cymorth a Llesiant yn rhoi hyblygrwydd i ddarparwyr symud cyllid rhwng pob un o'i helfennau.

52. Ar ôl i'r disgwyliadau monitro gofynnol ar gyfer pob un o ffrydiau cyllido'r Gronfa gael eu dychwelyd, caiff unrhyw danwariant islaw 100% o gyfanswm dyraniad Cymorth a Llesiant darparwr ei adhawlio'n llawn. Ni fydd opsiwn i gario'r dyraniad hwn ymlaen i flynyddoedd yn y dyfodol.

53. Rhaid i enillion yn sgil gwerthu offer nas defnyddir mwyach gael eu cynnwys yng nghysoniad y sefydliad.

## Manylion cyswllt

54. Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â chynnwys y Canllawiau hyn, cysylltwch â Medr yn BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru.

## Atodiadau

### A. Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| AAD | Term a ddefnyddir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 i ddisgrifio person sydd ag amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith hirdymor sylweddol ar ei weithgareddau beunyddiol yw anawsterau a/neu anableddau dysgu. |
| ACY | At ddibenion y canllawiau hyn, ACY yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio dysgwyr sy'n gymwys i gael cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol (CDY). Mae hyn yn cynnwys dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a dysgwyr y mae angen iddynt gael Cymorth Galluogi (CG) oherwydd rhwystrau dynodedig sy'n eu hatal rhag cael mynediad at eu rhaglen ddysgu, cymryd rhan ynddi neu ei chwblhau'n llwyddiannus. |
| ADY | Mae'r Cod ADY yn diffinio plentyn neu berson ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol fel rhywun sydd ag anhawster a/neu anabledd dysgu yn unol â thelerau'r Ddeddf Cydraddoldeb y mae angen iddo gael Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol er mwyn gwneud cynnydd rhesymol yn ei addysg a'i hyfforddiant. |
| Addysg uwch | Caiff darpariaeth addysg a hyfforddiant uwchlaw lefel 3 mewn coleg ei disgrifio fel addysg uwch. |
| CADY | Mae'r Cod ADY yn diffinio Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol fel rhywun o fewn ysgol neu sefydliad addysg bellach sydd â chyfrifoldeb strategol i gydlynu'r ddarpariaeth ADY. |
| CDU | Y ddogfen statudol a ddefnyddir i nodi deilliannau a ddymunir ac anghenion cymorth dysgwr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yw Cynllun Datblygu Unigol. Yn unol â'r Ddeddf a'r Cod ADY, rhaid i'r ddogfen hon gael ei diweddaru o leiaf unwaith y flwyddyn yn dilyn adolygiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gyda'r dysgwr. |
| CDY | Mae Cymorth Dysgu Ychwanegol yn disgrifio'r amrywiaeth o Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol a Chymorth Galluogi y gellir defnyddio'r grant CDY ar ei chyfer. |
| Cod ADY | Mae'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (2021) yn cynnwys canllawiau statudol i nifer o gyrff cyhoeddus gan gynnwys awdurdodau lleol; cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; sefydliadau addysg bellach a byrddau iechyd lleol yng Nghymru. |
| Cymorth Galluogi (CG) | Cymorth sy'n helpu dysgwr i wneud cynnydd yn ei gwrs ond nad yw wedi'i deilwra i'r un graddau â Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol yw Cymorth Galluogi. |
| Deddf ADY | Mae'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (2018) yn rhoi'r fframwaith cyfreithiol i gyrff cyhoeddus ddiwallu anghenion addysg a hyfforddiant plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. |

| | |
|---|---|
| Deddf Cydraddoldeb 2010 | Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwahardd gwahaniaethu yn erbyn pobl â nodweddion gwarchodedig. Mae anabledd yn un o'r nodweddion gwarchodedig hyn. |
| Dysgu cymunedol â ffocws ar ddiwydiant | Mae dysgu cymunedol â ffocws ar ddiwydiant yn rhan o lawer o lwybrau dysgu ac fe'i hariennir drwy'r cyllid ar gyfer cynnal rhaglenni. |
| DDdY | Mae'r Cod ADY yn diffinio Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol fel darpariaeth sy'n ychwanegol at yr hyn sydd ar gael fel arfer i blant/pobl ifanc o oedran tebyg mewn ysgol neu goleg prif ffrwd. |
| Sgiliau Byw'n Annibynnol | Mae Sgiliau Byw'n Annibynnol yn cyfeirio at ddarpariaeth ar wahân o fewn sefydliadau addysg bellach sydd wedi'i dylunio'n benodol i ddiwallu anghenion pobl ifanc sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu cymedrol i ddwys. |

## B. Rhaglenni ar wahân sydd o fewn cwmpas Maes Pwnc Sector 14

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y Cyfeiriadur Rhaglenni ar wefan Medr.

| Maes Pwnc Sector | Teitl y Rhaglen | Lefel | Cod y Rhaglen |
|---|---|---|---|
| 14 | Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) Lefel 1 | 01 | 1401C01B |
| 14 | Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) Lefel 2 | 02 | 1401C02B |
| 14 | Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) Lefel E1 | E1 | 1401CE1B |
| 14 | Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) Lefel E2 | E2 | 1401CE2B |
| 14 | Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) Lefel E3 | E3 | 1401CE3B |
| 14 | Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) Cyn Mynediad | PE | 1401CPEB |
| 14 | Dysgu Sylfaen Lefel E1 | E1 | 1401AE1B |
| 14 | Dysgu Sylfaen Lefel E2 | E2 | 1401AE2B |
| 14 | Dysgu Sylfaen Lefel E3 | E3 | 1401AE3B |
| 14 | Astudiaethau Sylfaen Lefel 1 | 01 | 1401A01B |
| 14 | Astudiaethau Sylfaen Lefel 2 | 02 | 1401A02B |
| 14 | Sgiliau Byw'n Annibynnol (Llwybr 1) | Amh. | 1401AXXB |
| 14 | Sgiliau Byw'n Annibynnol (Llwybr 2) | Amh. | 1401BXXB |
| 14 | Sgiliau Byw'n Annibynnol (Llwybr 3) | Amh. | 1401CXXB |
| 14 | Sgiliau Byw'n Annibynnol (Llwybr 4) | Amh. | 1401DXXB |
| 14 | Paratoi ar gyfer Gwaith Lefel 1 | 01 | 1402A01B |
| 14 | Paratoi ar gyfer Gwaith Lefel 2 | 02 | 1402A02B |
| 14 | Paratoi ar gyfer Gwaith Lefel E1 | E1 | 1402AE1B |
| 14 | Paratoi ar gyfer Gwaith Lefel E2 | E2 | 1402AE2B |
| 14 | Paratoi ar gyfer Gwaith Lefel E3 | E3 | 1402AE3B |

## C. Cofnodi Cymorth Dysgu Ychwanegol ar Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LP76)

**Dylai'r wybodaeth hon gael ei darllen ar y cyd â Llawlyfr Cymorth i Ddefnyddwyr Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru ar gyfer Darparwyr Dysgu.**

Dylai sefydliadau ddefnyddio maes LP76 yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru i gofnodi p'un a oes gan ddysgwr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ai peidio a ph'un a yw cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol (CDY) yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i ddiwallu'r anghenion hynny ai peidio. Mae'n bwysig bod data LP76 yn gywir ac yn gyflawn am eu bod yn galluogi Medr i fonitro'r galw am gyllid CDY ac yn cefnogi gweithgareddau cyllido, cynllunio a monitro drwy'r sector cyfan. Er bod maes LP76 yn cyfeirio at ADY, dylid ei gwblhau ar gyfer pob dysgwr sydd ag anghenion cymorth ychwanegol dynodedig a dylid nodi p'un a yw cyllid CDY yn cael ei ddefnyddio ai peidio.

### Cod 0 – Nid oes gan y dysgwr ADY / nid oes angen cyllid CDY

Dylid defnyddio gwerth '0' lle nad oes gan ddysgwr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae hyn yn cynnwys dysgwyr nad oes ganddynt anabledd a/neu anhawster dysgu, dysgwyr sy'n cael cymorth sy'n rhan o Ddarpariaeth Ddysgu Gyffredinol (DDdG) y sefydliad, a dysgwyr ag ADY sydd wedi gwrthod cymorth.

### Cod 5 – Mae gan y dysgwr ADY, ond nid yw cyllid CDY yn cael ei ddefnyddio

Dylid defnyddio gwerth '5' lle mae gan ddysgwr ADY, ond nid yw cyllid CDY yn cael ei ddefnyddio. Gall hyn gynnwys dysgwyr ar raglenni ar wahân nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cyllid CDY eithriadol, dysgwyr y caiff eu hanghenion cymorth eu diwallu drwy ffynhonnell arall megis awdurdod lleol, bwrdd iechyd lleol neu daliadau uniongyrchol, a dysgwyr y mae eu hanghenion cymorth yn cael eu diwallu heb ddefnyddio cyllid CDY.

### Cod 6 – Mae gan y dysgwr ADY ac mae cyllid CDY yn cael ei ddefnyddio

Dylid defnyddio gwerth '6' lle mae cyllid CDY yn cael ei ddefnyddio i roi cymorth er mwyn diwallu anghenion dynodedig dysgwr. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr sy'n cael cymorth dynol, cymorth technegol, Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) neu Gymorth Galluogi (CG) a ariennir drwy gyllid CDY, a dysgwyr ar raglenni ar wahân sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cyllid CDY eithriadol.

Dylai sefydliadau wirio eu data LP76 er mwyn sicrhau eu bod yn gywir a'u bod yn gyson â'r wybodaeth yn eu Tystysgrifau Gwariant. Nid yw'n ofynnol i'r ddwy set o ddata gyfateb i'w gilydd yn union, oherwydd gall mân wahaniaethau ddigwydd o ganlyniad i ddysgwyr sy'n gadael eu rhaglenni'n gynnar. Fodd bynnag, byddai Medr yn disgwyl i nifer y dysgwyr y nodir eu bod yn cael cymorth a ariennir drwy gyllid CDY gyfateb yn fras i nifer y dysgwyr a gofnodir yn LP76 = '6'.

Dylai sefydliadau hefyd sicrhau bod LP30 (Math o Anabledd) ac LP90 (Statws CDU) wedi'u cwblhau lle y bônt yn berthnasol. Mae rhagor o wybodaeth am feysydd Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, y gofynion cwblhau a'r rheolau dilysu i'w gweld yn Llawlyfr Cymorth i Ddefnyddwyr Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru ar gyfer Darparwyr Dysgu.

## D. Enghreifftiau o Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) a Chymorth Galluogi

### Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol

Mae'r Cod ADY yn diffinio Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol fel a ganlyn:

> *3 Darpariaeth ddysgu ychwanegol*
>
> *(1) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i berson sy'n dair oed neu'n hŷn yw darpariaeth addysgol neu ddarpariaeth hyfforddiant sy'n ychwanegol at yr hyn, neu sy'n wahanol i'r hyn, a wneir yn gyffredinol i eraill sydd o'r un oedran—*
>
> *(a) mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru,*
>
> *(b) mewn sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach yng Nghymru, neu*
>
> *(c) mewn mannau yng Nghymru lle y darperir addysg feithrin.*

Yn ymarferol, bydd gan unrhyw berson ifanc sydd ag anhawster a/neu anabledd dysgu yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb y mae angen iddo gael DDdY er mwyn iddo wneud cynnydd rhesymol yn ei ddysgu, Gynllun Datblygu Unigol.

Ar gyfer y dysgwyr hyn, disgwylir y bydd colegau'n rhoi cymorth wedi'i deilwra ar waith yn yr ystafell ddosbarth neu'r gweithdy, neu mewn sesiynau ar wahân lle bo hynny'n briodol, sy'n helpu pob dysgwr i gyflawni'r deilliannau a nodir yn ei CDU. Gall hyn gynnwys:

- Cymorth personol dynodedig a roddir yn ystod y wers gan gynorthwyydd cymorth.
- Sesiynau ymyrryd wedi'u teilwra a gynhelir gan arbenigwr (megis tiwtor Anawsterau Dysgu Penodol (ADP) neu arbenigwr awtistiaeth)
- Offer arbenigol a brynir gan y coleg sy'n helpu un dysgwr i ennill ei gymhwyster neu gwblhau gwaith cwrs
- Arwyddwr BSL personol dynodedig er mwyn helpu'r dysgwr i ddeall gwybodaeth ac ymateb iddi yn yr ystafell ddosbarth.

### Cymorth galluogi

At ddibenion y canllawiau hyn, mae Cymorth Galluogi (CG) wedi'i fwriadu ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymorth ychwanegol dynodedig nad oes angen iddynt gael cymorth hirdymor neu wedi'i deilwra drwy Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) o bosibl. Mae'n bosibl na fydd dysgwyr sy'n gymwys i gael y math hwn o gymorth wedi cael diagnosis ac mae'n bosibl na fydd ganddynt Gynllun Datblygu Unigol (CDU). Rhaid bod tystiolaeth ar gael i ddangos y byddai'r dysgwr yn annhebygol o allu cael mynediad at ei raglen ddysgu, cymryd rhan ynddi neu ei chwblhau'n llwyddiannus heb y cymorth hwn. Dylai sefydliadau gadw tystiolaeth o'r angen cymorth ychwanegol dynodedig, y sail resymegol dros roi'r cymorth, a sut mae'r cymorth yn cyfrannu at fynediad, cyfranogiad neu gyflawniad y dysgwr.

Nid yw CG yn cynnwys Cymorth Sgiliau Sylfaenol, a ddylai fod ar gael i bob dysgwr. Dylai CG fod ar gael i ddysgwyr pan fydd angen a gellir ei rannu ag eraill sydd ag anghenion cymorth ychwanegol dynodedig tebyg. Gellir rhoi CG i unigolyn neu ei rannu os mai

dyna'r dull mwyaf priodol a chosteffeithiol o ddiwallu anghenion cymorth ychwanegol dynodedig. Nid yw'r ffaith bod cymorth yn cael ei rannu'n golygu na all gael ei ariannu drwy CDY, ar yr amod ei fod yn targedu dysgwyr ag anghenion cymorth ychwanegol dynodedig.

Er ei bod yn bosibl na fydd angen yr un lefel o unigoleiddio ar gyfer CG o gymharu â DDdY, rhaid bod cysylltiad clir rhyngddo ac anghenion cymorth ychwanegol dynodedig a rhaid iddo fod yn ychwanegol at ddarpariaeth safonol y sefydliad. Nid yw cymorth sydd ar gael fel mater o drefn i bob dysgwr drwy Ddarpariaeth Ddysgu Gyffredinol (DDdG) neu ddarpariaeth graidd rhaglenni yn gymwys i gael cyllid CDY.

**Ymhlith yr enghreifftiau posibl o Gymorth Galluogi mae:**

- Cymorth a rennir sy'n cael ei roi i grŵp o ddysgwr ag anghenion cymorth ychwanegol dynodedig er mwyn eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu.
- Cymorth ymarferol er mwyn helpu dysgwr ag anabledd corfforol i gael mynediad i amgylcheddau dysgu a chyfleusterau coleg.
- Cymorth dan gyfarwyddyd er mwyn datblygu sgiliau trefnu, astudio neu ddysgu'n annibynnol lle mae'r anawsterau hyn yn creu rhwystrau rhag cymryd rhan yn llwyddiannus.
- Darparu meddalwedd neu dechnoleg hygyrchedd y nodwyd ei bod yn angenrheidiol er mwyn diwallu anghenion cymorth ychwanegol dysgwr, neu hyfforddiant ar ddefnyddio meddalwedd neu dechnoleg o'r fath.
- Cymorth dan gyfarwyddyd er mwyn galluogi dysgwyr ag anghenion cymorth ychwanegol dynodedig i ymwneud â dysgu ar-lein neu gyfunol.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**